

Bwletin Awdurdod S4C - Ionawr 2001

Llongyfarchiadau

Mynegodd yr Aelodau longyfarchiadau gwresog iawn i'r Cadeirydd, Elan Closs Stephens, ar ei llwyddiant wrth gael ei phenodi i Gadair mewn Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth.

Y Cynulliad

- (a) *Cyfarfod gyda Mike German, Dirprwy Prif Weinidog a Gweinidog dros Ddatblygiad Economaidd y Cynulliad* – Cafodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod buddiol gyda Mike German lle trafodwyd y ffyrdd yr oedd S4C yn cyfrannu at yr economi Cymreig a sut y gallai fod yn gefnogol i bolisiau'r Cynulliad yn y dyfodol.
- (b) *Cyfarfod gyda Jenny Randerson, Gweinidog dros Ddiwylliant y Cynulliad* – Unwaith eto manteisiwyd ar y cyfle i bwysleisio cyfraniad S4C tuag at hybu y celfyddydau creadigol yng Nghymru. Soniwyd er nad oedd y Sianel yn dod o dan gyfrifoldeb statudol y Cynulliad roedd yn dal i fedru bod yn bartner brwdfrydig.

Y Papur Gwyn ar Gyfathrebu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar 12 Rhagfyr 2000 ac at adroddiad yr Ysgrifennydd a wnaeth grynhoi'r prif amcanion ac amlinellodd y goblygiadau i S4C. Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen mwy o amser arnynt i ystyried manylion yr hyn a fwriadwyd gan y Llywodraeth ac y dylid, felly, cyfyngu'r drafodaeth i un ragarweiniol gan gynnal trafodaeth llawnach ym mis Ionawr. Nodwyd, er hynny, fod y Papur Gwyn yn cadarnhau pwysigrwydd S4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ac yn arbennig, felly, fel darlledwr yn yr iaith Gymraeg.

O ran yr amserlen yn dilyn cyhoeddiad y Papur Gwyn, nodwyd taw'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 12 Chwefror 2001. Cadarnhawyd taw bwriad y Llywodraeth – yn ddibynnol ar ganlyniadau'r Etholiad Cyffredinol yn 2001 – oedd i ddeddfu yn gynnar yn sesiwn nesaf y Senedd gyda'r newidiadau'n weithredol o haf 2002. Er hynny, roedd y Llywodraeth eisoes wedi mynegi ei ddymuniad i'r rheoleiddwyr presennol ddechrau gweithredu ar y drefn newydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd (2001) fel petai'r newidiadau eisoes wedi cymryd lle.

Cyfarfod gyda BBC Cymru

Adroddodd y Cadeirydd ar y cyfarfod a gafodd hi, y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd gyda Chadeirydd, Rheolwr a Phennaeth Materion Corfforaethol BBC Cymru. Y prif faterion a drafodwyd oedd cynlluniau digidol y ddau gorff a'r deg awr statudol o raglenni roedd y BBC yn cyfrannu at amserlen S4C. Roedd cynlluniau cyffrous gan y naill ddarlledwr a'r llall i ymateb i'r cyfleoedd ac i'r bygythiadau roedd y dechnoleg digidol yn cynnig. Roedd BBC Cymru hefyd wrthi yn adolygu natur ac ansawdd y deg awr o raglenni roeddent yn darparu ar gyfer S4C pob wythnos ond nid oedd ganddynt gynlluniau i ychwanegu at y deg awr ar hyn o bryd. Yn ogystal, cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod rhwng Aelodau Awdurdod S4C ac Aelodau Cyngor Darlledu Cymru yn gynnar yn 2001.

Swyddog Iechyd a Diogelwch

Cadarnhawyd y byddai Arshad Rasul, y Cyfarwyddwr Peirianyddiaeth, yn ymgymryd â'r dyletswyddau'n ymwneud a iechyd a diogelwch ar ran y Sianel o hyn ymlaen.

Andrew Ramsey, Is-Ysgrifennydd, Adran Ddiwylliant Cyfryngau a Chwaraeon

Cyfeiriwyd at ymweliad cyntaf Andrew Ramsey, Is-Ysgrifennydd yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a oedd gyfrifol am ddarlledu a'r cyfryngau, â S4C. Cafwyd cyfarfod da a chyfle i esbonio strwythur darlledu S4C ac ymateb cynnar y Sianel i'r Papur Gwyn ar Gyfathrebu.

Adroddiad ar Raglenni

Derbyniwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rhaglenni a thrafodwyd yn benodol yr isod.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod diffyg slot Cymraeg yn hwyrach yn y nos wedi bod yn rhwystredigaeth nid yn unig i'r gwylwr ond i S4C hefyd. Ar ôl i swyddogion drafod y mater hwn fe wnaethant benderfynu y dylid, yn y Flwyddyn Newydd, arbrofi gyda darlledu rhaglenni Cymraeg yn y slot am 10.30 pm. Y rhaglen gyntaf i'w darlledu yn y slot hwn fyddai *Diwrnod Hollol Mindblowing* a gobeithiwyd y byddai'r ffilm yn denu sylw i'r newid.

Mynegwyd pryder bod yna rai rhaglenni gwan yn dal i lwyddo i gyrraedd y sgrin a thrafodwyd pa gamau y gellid neu y dylid eu cymryd i osgoi hyn yn y dyfodol. Credwyd y dylai'r meddylfryd newydd o gomisiynu rhaglenni ar sail eu cryfder a pha mor dda oeddynt yn hytrach na chomisiynu er mwyn llenwi amserlen fyddai'n cael ei gyflwyno yn y cylch comisiynu nesaf ateb hyn i ryw raddau. Er hynny, un broblem oedd y ffaith nad oedd gan S4C yr adnoddau dynol nag ariannol i fedru gweithio'n agos gyda phob cynhyrchiad. Nid oedd yn bosib addo y byddai popeth a gynhyrchir o 2002 ymlaen yn ardderchog, gan y byddai'r un diffyg adnoddau yn dal i fodoli.

Trafodwyd hefyd y pryder ynglyn â'r prinder o dalent ifanc yn dod i mewn i'r diwydiant. Roedd angen ymddwyn yn proactif i'w denu i mewn i'r byd teledu. Soniwyd fod gan gwmnïau bach fel arfer 'margins' rhy isel i fedru buddsoddi'n iawn mewn meithrin talent. Awgrymwyd y dylid ystyried bod yn fwy proactif ac edrych i weld i ble yn union yr oedd talent ifanc yn mynd os nad oedd yn dod i mewn i'r byd teledu. Crybwyllwyd efallai y dylid sefydlu cronfa ddatblygu ac edrych am ffynonellau eraill er mwyn medru datblygu talent a chynnig cyfleoedd profiad. Roedd hefyd angen ystyried sut i hybu'r diwydiant teledu yn fwy cyffredinol er mwyn iddo fedru cystadlu'n fwy effeithiol tu fewn a thus fas i Gymru.

Cyfarfodydd Agored 2001

Yn ôl dymuniad yr Aelodau yn y cyfarfod diwethaf trafodwyd ymhellach natur a strwythur cyfarfodydd agored yr Awdurdod. Ar ôl ystyried y mater, daethpwyd i'r casgliad na ddylid gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i natur y cyfarfodydd fel y cyfryw, ond y dylid defnyddio o leiaf un ohonynt yn ystod 2001 i arbrofi ar sail strwythur ychydig yn wahanol.

Cydymffurfiaeth

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at gwpwl o faterion cydymffurfiaeth y dylai'r Awdurdod fod yn ymwybodol ohonynt. Yn gyntaf, cylchredwyd o gwmpas y bwrdd dyfarniad y Comisiwn Safonau Darlledu ar y gwyn dderbyniodd gan Brifysgol Cymru Bangor am y rhaglen *Taro Naw* a ddarlledwyd ar 1 Tachwedd 1999. Disgwylir i'r Comisiwn gyhoeddi'r ddyfarniad yn ei Fwletin yn mis Ionawr (ar gael ar ei safle we: www.bsc.org.uk).

Yn ogystal, yr oedd cwyn swyddogol wedi'i dderbyn oddi wrth Cyngor Sir Gaerfyrddin ynglyn â rhaglen *Y Byd ar Bedwar* a ddarlledwyd ym mis Mehefin 1999. Roedd yr Ysgrifennydd ar ran yr Awdurdod wedi dechrau ar y broses o ohebu gyda'r Cyfarwyddwr Rhaglenni a HTV (y cwmni cynhyrchu) yn ôl y drefn cwynion. Byddai mwy o wybodaeth i'w roi gerbron yr Awdurdod maes o law.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd a/neu nodwyd y canlynol:

- adroddiad Ariannol
- adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol
- cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2000.
- adroddiad y Prif Weithredwr – materion er gwybodaeth
- papur ar gyflwyniad gan S4C i Bwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- adroddiad Cwynion
- adroddiad a chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2000.
- adroddiad y Wifren Gwylwyr
- adroddiad Ymchwil.
- cofnodion Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2000 (Hollol Gyfrinachol – trafodaeth ymhlith Aelodau'r Awdurdod yn unig).

Cyfarfodydd Nesaf yr Awdurdod

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Awdurdod ar nos Iau, 25 Ionawr 2001 (cyfarfod arbennig i drafod y Papur Gwyn ar Gyfathrebu) gyda'r cyfarfod busnes arferol nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Ionawr 2001, yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd.